

TRIN GWALLT A THERAPI HARDDWCH

Os ydych yn unigolyn cymdeithasgar, siaradus a chreadigol sy'n hoffi gwneud i bobl deimlo'n dda ynghylch eu hunain, yna mae Trin Gwallt a Therapi Harddwch ar eich cyfer chi! O'r corun i'r traed, gallwch ddysgu technegau a sgiliau mewn triniaethau megis steilio, trin traed a chwyo.

Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaoedd y gallech chi eu dilyn:

Trin Gwallt

O dorri a lliwio i glymu gwallt i fyny'n steilus, mynegwch eich dychymyg mewn gwallt. Bydd gennych lygaid am ddyluniad, gan roi cyngor i'r cleientiaid ar yr edrychiad sydd orau iddynt. Gallwch weithio eich ffordd i ddatblygu'n uwch steilydd neu dechnegydd.

Therapi Harddwch

Gan faldodi a phincio'r cwsmer, byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth o fioleg croen a chemeg cosmetig i deilwra triniaethau at anghenion cleientiaid. Byddwch hefyd yn rhoi cyngor ar ôl-ofal a chynnyrch priodol. Mae'r swyddi mewn salonau, siopau adrannau a gwasanaethau symudol.

Therapi Sba

Gelwir hefyd yn therapi holistig, byddwch yn hyrwyddo byw'n iach, lles ac ymwybyddiaeth ofalgar trwy driniaethau megis tyliniad pen Indiaidd, aromatherapi a hydrotherapi. Addas i'r rheiny sy'n dawel eu ffordd a hunanfeddiannol.

Gwasanaethau Ewinedd

Gan fynd yn fwyfwy poblogaidd, gwasanaethau ewinedd yw'r ffasiwn sy'n mynd â hi. O driniaethau megis triniaethau dwylo a thraed, ewinedd acrylig a gel i wella iechyd cwtiglau a chyflwr iechyd, does dim un diwrnod yr un fath wrth weithio gydag ewinedd!

Dolenni Defnyddiol

www.skillsactive.com/sectors/hair-beauty
Cyngor Sgiliau'r Sector dros Trin Gwallt a Harddwch

www.nhf.info/about-the-nhf
Ffederasiwn Cenedlaethol Trinwyr Gwallt
www.haircouncil.org.uk Y Cyngor Gwallt
www.babtac.com Cymdeithas Therapi Harddwch a Chosmetoleg Prydain



MAE TRIN GWALLT A HARDDWCH YN YCHWANEGU
£187 MILIWN
I ECONOMI CYMRU
BOB BLWYDDYN

CYFANSWM Y SWYDDI YN Y DIWYDIANT HWN
4,790 CYMRU
142,969 DU



BYDD ANGEN MWY NA
5,500
O DRINWYR GWALLT A BARBWYR YN Y DIWYDIANT YNG NGHYMRU ERBYN 2022

MAE
5%
O'R BOBL YN Y SECTOR HWN YN HUNANGYFLOGEDIG

£15,873
£8.25/AWR
CYFLOG NODWEDDIADOL AR GYFARTALEDY Y N Y DIWYDIANT HWN

(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset)

Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

	Hyd	BG	C	DC
Barbro - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓		✓
Barbro - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓		
Dysgu Carlam mewn Therapi Harddwch - Lefel 1/2	1 Flwyddyn	✓		✓
Gwallt a Harddwch - Lefel 1	1 Flwyddyn		✓	
Trin Gwallt i Oedolion - Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Trin Gwallt - Lefel 1/2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Trin Gwallt - Lefel 2	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Trin Gwallt - Lefel 3	1 Flwyddyn		✓	✓
Therapi Harddwch - Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Therapi Harddwch - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓	✓	✓
Therapiau Cyflenwol - Lefel 3	1 Flwyddyn		✓	
Therapiau Cyflenwol - Lefel 4	1 Flwyddyn		✓	
Colur a Gwallt i'r Cyfryngau - Lefel 2	1 Flwyddyn		✓	
Technoleg Ewinedd - Lefel 3	1 Flwyddyn	✓		
Effeithiau Arbennig Theatrïg, Colur Gwallt a'r Cyfryngau - Lefel 3	1 Flwyddyn		✓	

Ymgeisiwch ar-lein nawr ar www.coleggwent.ac.uk | admissions@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)



Campus key: BG - Parth Dysgu Blaenau Gwent / C - Campws Crosskeys / DC - Campws Dinas Casnewydd

